Sefydliad y Merched

Sefydlwyd ym 1916, yn ail yn unig i Sefydliad yn Sir Fôn, a hynny dros Brydain Fawr. Mae gan ddwy o'n haelodau gysylltiadau gyda'r sylfaenwyr. Miss Lumley, modryb Miss Nita James, lansiodd Sefydliad y Merched yn Nhal-y-bont ac roedd mam Mrs Elsie Thomas yn un o'r aelodau cyntaf. Cynhaliwyd y cyfarfodydd cyntaf yn yr Ysgol, yr Hen Ysgol erbyn hyn. Y llywydd cyntaf oedd Mrs Clifford Brown o Blas Penpompren a dilynwyd hi gan Miss Lumley, Mrs Vaughan, Miss R. Owen, Mrs Rees, Barynys, Mrs. Sansbury, Mrs Elsie Thomas, Mrs Royle, Mrs E. James a Mrs A. Taylor.

Roedd yr aelodau cynnar yn cymryd rhan flaenllaw yn adeiladu'r Neuadd Goffa yn Nhal-y-bont yn y blynyddoedd yn union ar ôl y Rhyfel Mawr, 1914–18. Casglwyd y swm mwyaf o arian drwy gyfraniadau o geiniog yr wythnos. Gwnaethpwyd ymdrech arall ganddynt i godi arian ym 1923 tuag at Ffederasiwn y Sir o Sefydliad y Merched, ac enillont Gwpan Lisburne. Yn yr achos hwn codwyd yr arian drwy arddangosfa a chynhyrchiadau drama a gyflwynwyd gan yr

The Women's Institute

Founded in 1916, the second in the whole of Great Britain and to the first institute founded in Anglesey. Two of our members have connections with the founders. Miss Nita James' aunt, Miss Lumley actually launched the Tal-y-bont WI and Mrs Elsie Thomas' mother was a founder member. The first meetings were held in what is now the Old School. The first president was Mrs. Clifford Brown of Plas Penpompren followed by Miss Lumley, Mrs Vaughan, Mrs Rees of Barynys, Miss R. Owen, Mrs Sansbury, Mrs Elsie Thomas, Mrs. Royle, Mrs E. James and Mrs A. Taylor.

The early members were much involved in the building of the Memorial Hall in Tal-y-bont in the years immediately after the Great War, 1914–18. They collected the largest amount of money in contributions of a penny a week. In 1923 they raised money for the WI County Federation. In this instance the money came from an exhibition and the members' drama productions. For their efforts they were awarded the Lisburne Cup which was presented to them by Lady

Yr aelodau gyda'r llywydd cyntaf, Mrs Clifford Brown, Penpompren Hall, yn dal Cwpan Lisburne, 1923.

The members with the first president, Mrs Clifford Brown, Penpompren Hall, holding the Lisburne Cup, 1923.

Ffair y Sipsiwn, 1926.

Gypsy Fair, 1926.

Y Morwyr, 1939.

The Sailors, 1939.

aelodau. Cyflwynwyd y Cwpan gan y Fonesig Lisburne, ac mae ein haelod hynaf, Miss Nita James, sy'n 90 oed, yn cofio'r achlysur yn dda.

Ym 1951, adeg Gŵyl Prydain cynhaliwyd pasiant mawr yn Neuadd y Brenin yn dwyn y teitl, 'A Pageant of Pioneer Women'. Cyflwynodd Tal-y-bont ddigwyddiad yn ystod Rhyfel y Crimea a oedd yn cynnwys Florence Nightingale. Arweiniwyd y noson gan Mrs Valma Jones, aelod o Sefydliad y Merched, Tal-y-bont. Cynhaliwyd cystadlaethau dramâu yn y Neuadd Goffa yn y 3, 4 a 5 degau ac roedd Tal-y-bont yn llwyddiannus yma ac mewn cystadlaethau sirol. Cymerodd Sefydliad y Merched, Tal-y-bont ran mewn cystadleuaeth ddrama genedlaethol. Perfformiwyd 'The Bronte Sisters' ganddynt a dewiswyd hwy i gynrychioli De Cymru yn Theatr y Grand, Abertawe.

Cynhyrchwyd sawl ffurf o adloniant gan y Sefydliad; dramâu, pasiantau ac eitemau cerddorol. Enghraifft o hyn oedd, 'The Seasons', pasiant sirol a berfformiwyd yn Neuadd y Brenin yn Aberystwyth. Cyflwynwyd 'Yr Hydref' gan Dal-y-bont gyda stori Ruth a Naomi. Llwyfannwyd 'The Good Old Days' yn lleol gyda chymorth y gwŷr, drwy drefniant arbennig, a'r cyfan yn cael ei arolygu a'i gyfarwyddo gan Miss Ruffina Owen, a oedd yn dasg feistres lem, ac a fynnai fod pob golygfa a gwisg yn berffaith. Bu Tal-y-bont yn llwyddiannus iawn yn yr eisteddfodau cynnar gan ennill gwobrau a chwpanau am ganeuon actol, meimio, corau ac eitemau unigol.

Lisburne. Our oldest member, ninety year old, Miss Nita James has vivid recollections of the occasion.

In 1951, the time of the Festival of Britain, a grand pageant was staged in the King's Hall entitled, 'A Pageant of Pioneer Women' in which Tal-y-bont enacted a scene in the Crimean War involving Florence Nightingale. A member of Tal-y-bont WI, Mrs Valma Jones, was the evening's compere. Drama competitions were held in the Memorial Hall in the 1930s, '40s and '50s and Tal-y-bont was successful here and at county level. Tal-y-bont performed 'The Bronte Sisters' in a national drama competition and was chosen to represent South Wales in the Grand Theatre, Swansea.

The Institute put on many forms of entertainment; plays, pageants and musical items. An example was 'The Seasons', a county pageant performed at the King's Hall, Aberystwyth. Tal-y-bont presented 'Autumn', miming the story of Ruth and Naomi. Another presentation, 'The Good Old Days' was staged locally with the help of husbands, by special arrangement. All was supervised and directed by Miss Ruffina Owen who was a hard taskmaster striving to have scenes and costumes correct in every detail. Tal-y-bont was very successful in the early eisteddfodau, winning prizes and cups for action songs, mimes, choirs and solo items.

Various classes were started during the

'The Bronte Sisters': Megan Jones-Pierce, Ruffina Owen, Valma Jones, Dora Evans.

Ruth a Naomi, 1960.

Ruth and Naomi, 1960.

Dechreuwyd dosbarthiadau yn ystod y Rhyfel Mawr, 1914–18, gan ddechrau gyda gwneud menyn a chaws ac yn dilyn yn ddiweddarach gyda gwnïo, gwaith basged, gwaith lledr, smocwaith ac ati. Trefnwyd Arwerthiannau Gwaith, ac yn eu mysg Ffair Iseldiroedd a Ffair Sipsiwn, gyda phawb wedi gwisgo mewn dillad priodol. Defnyddiwyd yr arian a godwyd i dalu am wres canolog a llenni yn y Neuadd.

Gwnaeth y Sefydliad ei ran yn ystod yr Ail Ryfel Byd, 1939–45, drwy gasglu arian tuag at gysuron i'r milwyr. Casglwyd yr arian fesul un geiniog yr wythnos oddi wrth nifer o bobl yn y pentref. Prynwyd gwlân gyda'r arian a bu aelodau yn gwau sgarffiau, sanau, menig a balaclafas i'w hanfon i ddynion lleol yn y Lluoedd Arfog. Ar ôl prynu'r gwlân, rhoddwyd y gweddill o'r arian o'r neilltu er mwyn gwneud taliadau bychain i'r dynion a gwragedd lleol, a oedd yn gwasanaethu, pan fyddent yn dychwelyd adref neu i'w teuluoedd os byddai angen. Derbyniodd Miss Nita James, a fu'n ysgrifenyddes am nifer o flynyddoedd, lythyron oddi wrth ddynion a merched lleol a oedd yn y lluoedd arfog, yn diolch i aelodau Sefydliad y Merched am eu holl gymorth. Mae'r llythyron yn hynod ddiddorol i'w darllen.

Bu aelodau yn cystadlu mewn cystadlaethau sirol gan gael cryn lwyddiant ac ennill nifer o gwpanau a thystysgrifau. Buont hefyd yn cystadlu mewn amryw ddosbarthiadau yn Sioe Frenhinol Cymru. Un o'r cystadleuwyr mwyaf llwyddiannus yn y Dosbarthiadau Celfyddyd Gosod Blodau yw Mrs Mary Ellis, sydd ond yn defnyddio blodau a dail lleol, a'r cyfan ymron o'i gardd ei

Great War, 1914–18. Learning to make butter and cheese was followed later with classes in sewing, basketry, leather work, smocking and so on. Sales of Work were organised such as the Dutch Fair and the Gipsy Fair where everyone dressed in appropriate costumes. Money raised in this way paid for the central heating and the curtains in the Memorial Hall.

The Institute 'did its bit' during the Second World War, 1939–45, collecting money to provide comforts for the troops. It was collected at the rate of a penny a week from many people in the village. The money was used to buy wool which the members knitted into scarves, socks, gloves and balaclavas to be sent to local men in the Forces. Any money left after buying the wool was set aside to provide for small payments to be given to each local serving man or woman when they returned home or to give to their families if needed. Miss Nita James, who was our secretary for many years, treasures the many letters she received from local servicemen and women thanking the WI members for all their help. They make interesting reading.

Members competed in county competitions with much success, winning many cups and certificates. Members also competed in various classes at the Royal Welsh Show. One of the most consistently successful entrant in the Floral Art Classes was Mrs Mary Ellis who used local flowers and foliage mostly from her own garden. Her artistry in creating beautiful arrangements put her among winners at the Royal Welsh on several occasions.

Aelodau, 1960.

Members, 1960.

hun. Mae ei chreadigaethau yn ddeniadol gyda llawer o feddwl y tu ôl iddynt ac enillodd lawer gwaith yn Sioe Frenhinol Cymru.

Mae'r Sefydliad yn cyfarfod yn y Neuadd unwaith bob pythefnos ac eithrio egwyl o wyth wythnos yn ystod yr Haf. Daw siaradwyr diddorol i'n hannerch, neu i arddangos crefft arbennig neu eitem goginio. Byddwn yn mwynhau nosweithiau aelodau hefyd, pan fydd aelodau eu hunain yn rhoi sgyrsiau neu arddangosiadau diddorol.

O dan lywyddiaeth Mrs Enid James, parhaodd y llwyddiant mewn cystadlaethau, yn bennaf oherwydd fod Mrs James mor ddawnus ac mor frwdfrydig. Roedd Mrs Pam Bement, a fu'n aelod am nifer o flynyddoedd nes iddi hi a'i gŵr adael Tal-y-bont, yn cynhyrchu nifer fawr o enghreifftiau bendigedig o gelf a chrefft. Bu Mrs Ovens, aelod arall, yn cynnal dosbarthiadau i ddysgu'r aelodau ei dawn arbennig hi mewn celf a chrefft. Mae cystadlaethau coginio yn boblogaidd, a chyflwynir cacennau a phrydau eraill sydd yn tynnu dŵr o ddannedd.

Ar hyn o bryd, fel ein Prosiect Mileniwm, mae'r Sefydliad yn adfer ac yn ailblannu yr ardd fechan wrth gât isaf Cae'r Llew Du. Mae'r ymdrech hon yn rhan o'r 'Llwybr i'r 21ain Ganrif', sydd yn cael ei drefnu dros Geredigion gyfan ac yn parhau gyda dathliadau'r mileniwm. Mae pawb ohonom yn Sefydliad y Merched, Tal-y-bont yn gobeithio y bydd ein Sefydliad yn teithio ar hyd y llwybr hwn ymhell i mewn i'r 21ain ganrif a thu hwnt.

Elsie Thomas

The Institute meets in the Hall once a fortnight, apart from an eight-week break in the summer. Interesting speakers come to address us or to demonstrate a particular craft or cookery item. 'Members nights' are also an enjoyable feature where the members themselves provide interesting talks or demonstrations.

Under Mrs Enid James' presidency success in competitions continued, especially in handicrafts, largely due to Mrs. James' skill and enthusiasm. Mrs Pam Bement, a member for many years, whilst she and her husband lived in Tal-y-bont, was very prolific in the production of beautiful examples of art and craft. Another member, Mrs Ovens held classes to help members acquire her particular skill in arts and crafts. Cookery competitions are popular, producing a mouth-watering array of cakes and other dishes.

Currently, as our Millennium Project, we are restoring and replanting the small raised garden by the lower gate into the Black Lion field. This effort is part of the 'Pathway to the 21st Century' being organised throughout Ceredigion as continuing millennium celebrations. All of us in the Tal-y-bont WI hope that our Institute will be journeying along that pathway well into the 21st century and beyond.

Elsie Thomas